Sain Tathan – Cam Un o'r Ymgynghoriad Dadansoddiad o Sylwadau

Cyhoeddwyd ym Mawrth 2009 gan Camargue
Ar ran Metrix a Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cynnwys

1.0	Trosolwg	3
2.0	Sampl Poblogaeth	5
3.0	Dadansoddiad Data Ansoddol	6
	3.1 Methodoleg	6
	3.2 Sylwadau Cyffredinol	6
	3.3 Pynciau Penodol	12
	3.3.a Trafnidiaeth	12
	3.3.b Cyflogaeth	15
	3.3.c Yr Amgylchedd	18
	3.3.d Tai	20
	3.3.e Casgliad	22
4.0	Dadansoddiad Data Meintiol	23
	Casgliad	27
5.0	Y Camau Nesaf	28

1.0 TROSOLWG

- Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar sylwadau a wnaed yn ystod cam un o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 15 – 18 Gorffennaf 2008. Cynhaliwyd arddangosfeydd fel a ganlyn:

    - 15 Gorffennaf, Y Man Ymgynnull, Sain Tathan: 16:00 - 20:30
    - 16 Gorffennaf, Y Man Ymgynnull, Sain Tathan: 16:00 - 20:30
    - 17 Gorffennaf, Canolfan Hamdden Y Bontfaen: 15:00 – 19:30
    - 18 Gorffennaf, Neuadd Llanthonian, Llanilltud Fawr: 15:00 – 19:30

- Ar gais y Cyngor Cymuned, cynhaliwyd arddangosfa bellach (yn arddangos yr union yr un defnyddiau) ym mhentref Llanmaes ar 10 Medi, o 15.00-19.00. Mae sylwadau a nodwyd yn yr arddangosfa hon hefyd wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

- Cafodd yr arddangosfeydd eu hyrwyddo mewn nifer o ffyrdd:

    - Rhoddwyd llythyr o wahoddiad trwy ddrysau 30,000 o breswylwyr yn byw yn yr ardal o amgylch ac yn agos at y safle, yn cynnwys Sain Tathan, Llanilltud Fawr, Y Bontfaen, Rhws, Trebefered a'r pentrefi bach rhyngddyn nhw. Cafodd y gwahoddiadau hyn eu dosbarthu ychydig dros bythefnos cyn yr arddangosfa gyntaf. Yn ogystal, yn dilyn adborth gan rai preswylwyr yn dweud nad oeddent wedi derbyn y llythyrau, wythnos cyn y digwyddiad cyntaf anfonwyd 1,700 o lythyrau gwahoddiad trwy'r post i breswylwyr yn byw yn Sain Tathan er mwyn sicrhau eu bod wedi eu derbyn (cynhyrchwyd pob llythyr yn Gymraeg a Saesneg).

    - Gosodwyd hysbysebion dwyieithog yn y South Wales Echo a Barry & District News am bythefnos (wythnos yn dechrau 30 Mehefin ac wythnos yn dechrau 7 Gorffennaf) ac yn y gyfres Glamorgan Gem ar 10 Gorffennaf. Sicrhawyd hefyd bod yr arddangosfeydd yn derbyn sylw golygyddol yn y tri phapur newydd, oedd yn cynnwys manylion amdanynt.

    - Anfonwyd taflenni A5 dwyieithog yn hysbysebu'r arddangosfeydd at lyfrgelloedd yn Y Bontfaen a Llanilltud Fawr ac at glercod y cyngor yn y cynghorau cymuned yn agos at y safle. Roeddent hefyd yn cael eu harddangos yn nigwyddiadau ymgynghoriad cyhoeddus ffordd gyswllt Maes Awyr Caerdydd.

    - Cafodd yr arddangosfa yn Llanmaes ei hyrwyddo trwy gyfrwng y Cyngor Cymuned ac roedd yn cynnwys dosbarthu posteri/taflenni mewn lleoliadau amlwg yn y pentref.

- Nod yr ymgynghoriad hwn oedd ceisio cael barn pobl ynglŷn â'r cynigion presennol ar gyfer datblygiad arfaethedig y Coleg Technegol Amddiffyn a'r Parc Busnes Awyrofod yn MOD Sain Tathan a'u galluogi i gynnig adborth.

- Gwahoddwyd sylwadau a chwestiynau am y prosiect yn gyffredinol ac yn benodol am y fersiwn ddiweddaraf o'r cynllun dangosol drafft ar gyfer y safle, oedd yn cael ei arddangos ac roedd copïau ohono ar gael i'w cymryd adref.

- Anogwyd y rhai oedd yn bresennol i gwblhau ffurflenni sylwadau oedd ar gael ym mhob un o'r arddangosfeydd. Roeddent naill ai'n gallu eu cwblhau ar y pryd neu'n gallu mynd a nhw adref a'u

dychwelyd gan ddefnyddio'r amlen rhadbost a ddarparwyd - roeddent yn cael eu hannog i ddychwelyd y ffurflenni erbyn diwedd mis Medi. Roedd y ffurflenni sylwadau, oedd yn ddwyieithog, yn rhoi lle i nodi 'sylwadau cyffredinol' yn ogystal â gofyn am farn ar y pynciau penodol canlynol: cyflogaeth, tai, trafnidiaeth a'r amgylchedd.

- Yn dilyn derbyn y 40 ffurflen a ddychwelwyd i ddechrau, anfonwyd nodyn atgoffa at y rhai a fynychodd yr arddangosfa (oedd wedi gadael eu cyfeiriad) i'w hatgoffa i gwblhau a dychwelyd y ffurflenni – anfonwyd ffurflen sylwadau ychwanegol, amlen rhadbost a chopi o'r cynllun drafft gyda'r nodyn atgoffa. Yn dilyn hyn cafwyd 35 ymateb arall.

- Yn seiliedig ar yr adborth gan y 40 ffurflen sylwadau cyntaf, ychwanegwyd cwestiynau penodol eraill at y ffurflen pan gafodd ei hanfon am yr ail waith. Dyma oedd y cwestiynau ychwanegol:

  - Ar y cyfan, ydych chi'n credu bod datblygiad y Coleg Technegol Amddiffyn yn cynrychioli cyfle cadarnhaol i'r gymuned leol/rhanbarthol? **Ydw** **Na**
  - Ar y cyfan, ydych chi'n credu bod datblygiad y Parc Busnes Awyrofod yn cynrychioli cyfle cadarnhaol i'r gymuned leol/rhanbarthol? **Ydw** **Na**
  - Ydych chi o blaid y cynigion i gadw Ffordd Eglwys Brewis ar agor a'i gwella mewn mannau? **Ydw** **Na**
  - Yn defnyddio graddfa o 1-6, a allwch chi raddio'r materion canlynol mewn perthynas ag ailddatblygiad MOD Sain Tathan, 1 yw'r mater sydd yn fwyaf pwysig i chi:

    Trafnidiaeth **Mynediad** **Tai**

    Cyflogaeth **Yr Amgylchedd** **Arall (nodwch os gwelwch yn dda)**

  Amlygwyd y cwestiynau ychwanegol hyn yn y llythyr eglurhaol ac anogwyd ymatebwyr i'w hateb hyd yn oed os nad oeddent eisoes wedi cwblhau ffurflen sylwadau.

2.0 SAMPL POBLOGAETH

Cyfanswm Niferoedd

Ar 15 Hydref, 2008 roedd cyfanswm o 78 o ffurflenni sylwadau wedi eu cwblhau a'u dychwelyd.

(N.B Cyflwynwyd 10 ffurflen sylwadau ar ran cyplau tra cyflwynodd tri unigolyn ddwy ffurflen yr un ar wahân - gydag ychwanegiadau at eu sylwadau cychwynnol. Mae hyn felly'n rhoi cyfanswm damcaniaethol o 82 o unigolion).

Ehangder Daearyddol	***Nifer o ymatebion***
Sain Tathan	**36**
Yn cynnwys Flemingston (1 ymateb), Picketston (1) a Llancadle (2)	
Llanilltud Fawr	**24**
Yn cynnwys Llanmaes (9) a Threbefered (6)	
Y Bontfaen	**3**
Arall	**15**
Yn cynnwys Y Barri (2), Caerdydd (3), Pen-y-bont ar Ogwr (1), Trewallter (1), Rhws (2), Porthcawl (1) Llanmaes (3) a dim cyfeiriad wedi ei nodi (2)	

Rhyw	
Gwryw	**31**
Benyw	**15**
Sylwadau a waned ar y cyd gan gyplau	**10**
Heb ei nodi	**19**

3.0 DADANSODDIAD DATA ANSODDOL

3.1 Methodoleg

Mae'r sylwadau a wnaed ar y ffurflenni adborth a dderbyniwyd yn ystod ac yn dilyn arddangosfa Cam Un wedi eu cofnodi mewn cronfa ddata ac wedi eu categoreiddio yn ôl pa ran o'r ffurflen yr oedd y sylwadau'n cyfeirio ato: Sylwadau Cyffredinol, Trafnidiaeth, Cyflogaeth, Yr Amgylchedd a Thai.

Er mwyn dadansoddi'r sylwadau a dod o hyd i themâu a phatrymau cyson, roedd yr adborth ym mhob categori'n cael ei rannu i is-grwpiau yn ôl perthnasedd i'r pwnc. Er enghraifft, o fewn Trafnidiaeth, nodwyd grwpiau o sylwadau yn ymwneud a 'thrafnidiaeth gyhoeddus' a 'mynediad/llwybrau'.

Mae unrhyw is-grŵp gydag wyth neu fwy o sylwadau (sy'n gwneud oddeutu 10% neu fwy o'r cyfanswm o ffurflenni adborth a dderbyniwyd) wedi ei amlygu yn y dadansoddiad yn ei rinwedd ei hun. Mae unrhyw is-grwpiau gyda llai nag wyth o sylwadau wedi eu cynnwys yn adran 'Sylwadau Eraill' y dadansoddiad.

Trwy gydol y dadansoddiad, mae sampl o sylwadau wedi cael eu hatgynhyrchu. Pan fyddant yn cael eu dyfynnu, mae'r sylwadau hyn yn adlewyrchu patrwm cyffredinol yr adborth a dderbyniwyd o fewn pob is-grŵp ond nid ydynt yn rhestr drwyadl.

N.B. At ddiben y dadansoddiad hwn, pan fo unigolyn wedi gwneud sylwadau amryfal o fewn pob categori, e.e. efallai bod unigolion wedi gwneud sylwadau ar drafnidiaeth gyhoeddus a mynediad/llwybrau, mae pob sylw wedi ei gyfrif ar wahân.

3.2 Sylwadau Cyffredinol

(Gwnaed cyfanswm o 125 o sylwadau)

Yn y blwch hwn, gallai'r cyhoedd nodi eu barn gyffredinol am ailddatblygiad arfaethedig MOD Sain Tathan. Trwy adael lle ar gyfer sylwadau cyffredinol, heb ddim anogaeth, y bwriad oedd amlygu'r materion yr oedd pobl yn eu hystyried yn fwyaf pwysig.
Yn dilyn y cyfle i wneud sylwadau ar unrhyw agwedd o'r cynllun, cofnodwyd y canlyniadau hyn:

- **Cofnodwyd 24 sylw unigol ynglŷn â thrafnidiaeth.** Cwblhawyd pedair ffurflen ar ran cyplau ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 28.

- **Cofnodwyd 20 sylw unigol yn datgan rhyw lefel o gefnogaeth i'r datblygiad/cynigion.** Cwblhawyd dwy ffurflen sylwadau ar ran cyplau ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 22.

- **Cofnodwyd 19 sylw unigol ynglŷn â'r wybodaeth ar gael yn yr arddangosfeydd/y broses ymgynghori.** Cwblhawyd un ffurflen ar ran cwpl ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 20.

- **Cofnodwyd 17 sylw unigol ynglŷn ag effeithiau ar yr amgylchedd.** Cwblhawyd un ffurflen sylwadau ar ran cwpl ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 18.

- **Cofnodwyd 12 sylw unigol ynglŷn â thai.**

- **Cofnodwyd 8 sylw unigol ynglŷn â chyflogaeth.** Cwblhawyd un ffurflen sylwadau ar ran cwpl ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 9.

- **Cofnodwyd 25 sylw unigol ynglŷn â materion eraill.** Cwblhawyd un ffurflen sylwadau ar ran cwpl ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 26.

  Roedd y rhain yn cynnwys:

  - *Dau sylw unigol ynglŷn â mynediad i'r Maes Hyfforddiant a pha hyfforddiant fyddai yno*
  - *Dau sylw unigol ynglŷn â pha fath o awyrennau fyddai'n cael eu cadw/gwasanaethu ar y safle*
  - *Tri sylw unigol ynglŷn â darpariaeth adnoddau*

- **Gadawyd 5 blwch yn wag**. Cwblhawyd dau o'r ffurflenni hyn ar ran cyplau ac felly mae cyfanswm damcaniaethol yr unigolion a benderfynodd beidio â gwneud sylw penodol yn 7.

3.2.a Trafnidiaeth (gweler hefyd 3.3)

(Derbyniwyd cyfanswm o 24 o sylwadau)

Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbyniwyd dan 'sylwadau cyffredinol' yn ymwneud a thrafnidiaeth yn canolbwyntio ar bryderon ynglŷn â'r cynnydd mewn traffig y gallai ailddatblygiad MOD Sain Tathan ei achosi. Er bod sylwadau penodol yn aml yn canolbwyntio ar y prif feysydd oedd o bryder i'r unigolyn, yn ymwneud a ffyrdd, cyffyrdd arbennig ac ati, roeddent i gyd yn pryderu am effaith negyddol cynnydd mewn traffig.

Roedd sylwadau ar feysydd penodol o bryder yn cynnwys:

- *'Allwch chi ystyried rhoi goleuadau traffig ar y gofeb yn Sain Tathan os gwelwch yn dda'*
- *'Fyddwn ni'n cael dim byd ond loriau'n mynd a dod o'r parc busnes'*
- *'Bydd mynedfeydd i'r safle'n annog pobl i ddefnyddio'r lonydd cefn trwy Picketston o'r Bontfaen'*
- *'Rwy'n poeni am yr ystyriaeth annigonol sy'n cael ei roi hyd yn hyn i gynnydd yn y traffig ar y ffyrdd ym Mro Morgannwg ac ardal Croes Cwrlwys sydd eisoes yn dioddef o dagfeydd'*
- *'Nifer cyfyng o lefydd parcio sydd yn y dref (Llanilltud Fawr) – dim digon ar adegau prysur'*
- *'Rwy'n poeni am lwybr y ffordd newydd arfaethedig a allai gael llai o effaith ar yr amgylchedd petai'n dod i lawr wrth y lein rheilffordd ac ymuno a'r hen ffordd cyn y dafarn The Old Brewery'*

Roedd sylwadau cyffredinol ar drafnidiaeth yn cynnwys:

- *'Poeni am barch at y pentref a chyswllt gyda ffyrdd ar adegau prysur, i mewn ac allan o Sain Tathan yn benodol'*
- *'Rwy'n poeni am yr ystyriaeth annigonol sy'n cael ei roi i oblygiadau cynnydd mewn traffig ar y ffyrdd ym Mro Morgannwg'*
- *'Mae'n bwysig cydlynu cynllunio a gweithredu cynlluniau seilwaith trafnidiaeth sy'n codi o brosiectau mawr arfaethedig yn yr ardal hon'*
- *'Mae'n bwysig bod y seilwaith trafnidiaeth yn ei le cyn i'r datblygiad ddechrau'*

3.2.b Sylwadau Cefnogol

(Gwnaed cyfanswm o 20 o sylwadau)

Cofnodwyd 20 sylw cefnogol dan 'sylwadau cyffredinol', yn amrywio o 'cefnogi mewn egwyddor' e.e. cyn belled a bod pryderon fel traffig yn cael eu hystyried, i gefnogaeth lwyr i'r cynllun.

Dyma rai o'r sylwadau:

- *'Cefnogi'r datblygiad yn llwyr'*
- *'Yn gefnogol i'r ailddatblygiad ar y cyfan oherwydd y buddiannau economaidd'*
- *'Mae'r syniad yn glodwiw iawn'*
- *'Er fy mod yn cefnogi'r datblygiad yn gyffredinol, mae gen i bryderon ynghylch trafnidiaeth a mynediad i'r safle'*
- *'Rwy'n credu bod y syniad cyffredinol yn dda. Fe fydd yn neis gweld poblogaeth y gwersyll yn ôl ble roedd 50 mlynedd yn ôl'*
- *'Mae wedi bod yn drist gweld RAF Sain Tathan yn cau lawr dros y blynyddoedd. Fe fydd yn braf ei weld yn gweithredu'n llawn eto'*
- *'Rwyf i a'm gwraig yn cytuno gyda'r Coleg Amddiffyn arfaethedig'*

3.2.c Gwybodaeth ar gael yn yr Arddangosfeydd/Proses Ymgynghori

(Gwnaed cyfanswm o 19 o sylwadau)

Cofnodwyd 19 o sylwadau o dan 'sylwadau cyffredinol' ynglŷn ag ansawdd yr wybodaeth oedd ar gael yn yr arddangosfa a'r broses ymgynghori yn gyffredinol. Roedd y mwyafrif o sylwadau (13) wedi rhannu bron yn gyfartal rhwng y rhai oedd yn credu bod yr arddangosfa o gymorth ac a oedd yn fodlon gyda'r lefel o wybodaeth oedd ar gael a'r rhai oedd eisiau gweld mwy o fanylion ac yn teimlo bod yr wybodaeth oedd ar gael yn gyfyng.

Dyma rai o'r sylwadau:

- *'Fel llawer o bobl, roeddwn yn meddwl bod yr arddangosfa gyntaf yn sylfaenol iawn, gyda diffyg manylder'*
- *'Wnes i fwynhau'r arddangosfeydd diweddar ond byddwn wedi hoffi gweld ychydig mwy o fanylder'*
- *'Mae'r cynigion ar y cyfan yn rhy annelwig i ganiatáu llun dealladwy o'r hyn sy'n cael ei gynnig'*
- *'Cyflwyniad gwael iawn, dim gwybodaeth i allu trafod dim byd. Map plentynnaidd iawn byddai plentyn chwech oed wedi gallu ei gynhyrchu'*
- *'Cyflwyniad da iawn, edrych ymlaen at weld y cynllun terfynol'*
- *'Arddangosfa wych yn y Man Ymgynnull. Paneli addysgiadol iawn a staff gwybodus'*

3.2.d Cyflogaeth (gweler hefyd 3.4)

(Derbyniwyd cyfanswm o 8 o sylwadau)

Roedd sylwadau ynglŷn â chyflogaeth a gofnodwyd dan 'sylwadau cyffredinol' yn dueddol o ganolbwyntio ar y negatif, gydag amheuaeth a fyddai'r gymuned leol wir yn cael budd o'r swyddi fyddai ar gael.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *'Mae hon yn ardal o ddiweithdra isel ac mae swyddi a'u gwerth yn cael eu gorbrisio'*
- *'Gobeithio bydd (y datblygiad) yn darparu gwaith i bobl leol'*

- *'Rwy'n teimlo nad yw'r coleg hwn yn cael ei adeiladu i greu mwy o swyddi lleol. Dwi'n credu mai dim ond John Smith ydyw'n ceisio (a llwyddo) gwneud ei hun yn well a thwyllo'r gymuned leol i feddwl y bydd mwy o swyddi ar gael yn lleol'*
- *'Mae'n ymddangos bod unrhyw ddatblygiad yn cael caniatâd i fynd yn ei flaen yn syth ar ôl unrhyw son am gyfleoedd gwaith ychwanegol, waeth beth yw'r effeithiau ar y wlad, pentrefi a ffyrdd lleol'.*

3.2.e Yr Amgylchedd (gweler hefyd 3.5)

(Gwnaed cyfanswm o 17 o sylwadau)

Yn amlwg, roedd llawer o'r sylwadau a wnaed, fel y rhai ynglŷn â thrafnidiaeth a thai, yn ymwneud a'r 'amgylchedd' ac effeithiau cysylltiol. Gellir dadlau felly mai dyma'r pwnc mwyaf cyffredin. Fodd bynnag, gan gymryd cyffredinolrwydd ei natur, at ddiben y dadansoddiad hwn bydd sylwadau sydd wedi eu priodoli'n benodol i'r 'amgylchedd' yn golygu ecoleg, bioamrywiaeth, sŵn, llifogydd a llygredd.

Roedd y sylw mwyaf cyffredin a gofnodwyd ynglŷn â'r amgylchedd dan 'sylwadau cyffredinol' yn canolbwyntio ar effaith sŵn - fyddai'n cael ei greu yn ystod y cyfnod adeiladu, trwy waith y Coleg Technegol Amddiffyn/Parc Busnes Awyrofod a gan y cynnydd mewn traffig. Roedd sylwadau am sŵn yn cyfrif am dros hanner y rhai a gofnodwyd. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys pryder am lifogydd, llygredd a'r effaith cyffredinol ar yr amgylchedd.

Dyma rai o'r sylwadau:

- *'Bydd y sŵn yn gwneud bod y tu allan yn annioddefol fel y mae nawr gydag ond un VC10'*
- *'Allwn ni gael addewid na fydd yna sŵn yn ystod y nos ac y bydd yn cael ei gadw i isafswm yn ystod y dydd? Dwi ddim eisiau gwrando ar sŵn saethu drwy'r dydd nac adeiladwyr am 7am am y tair blynedd nesaf'*
- *'Rwy'n poeni bydd sŵn profi peirianwaith, a pheiriannau pwerus ayb yn llawer uwch na maent wedi bod oherwydd bydd y Parc Busnes Awyrofod mor agos at bentref Sain Tathan'*
- *'Y pryderon mwyaf yw'r effeithiau uniongyrchol ar fy nheulu h.y. llygredd. Rydym yn dioddef mygdarth o brofi peiriannau ar hyn o bryd yn ogystal â dioddef sŵn o'r holl weithgareddau. Mae hyn yn aml yn golygu na allwn ddefnyddio'r ardd'*
- *'Ni ddylai'r datblygiad hwn ddigwydd ar draul bioamrywiaeth ym Mro Morgannwg'*
- *'Rwy'n teimlo bod yr opsiwn hawdd wedi ei gymryd mewn nifer o achosion ac nad oes digon o ystyriaeth wedi ei roi i leihau'r effaith ar yr amgylchedd a bodau dynol'*

3.2.f Tai (gweler hefyd 3.6)

(Gwnaed cyfanswm o 12 o sylwadau)

Roedd sylwadau ynglŷn â thai a gofnodwyd dan 'sylwadau cyffredinol' yn canolbwyntio gan mwyaf ar yr effaith y byddai adeiladu tai yn ei gael ar yr amgylchedd cyfagos a hefyd, trwy'r cynnydd mewn poblogaeth, ar seilwaith ac adnoddau cyfagos.

Roedd hanner y sylwadau a gofnodwyd yn cyfeirio'n uniongyrchol at bryder ynglŷn â'r posibilrwydd o golli tyllau yn y cwrs golff oherwydd datblygiad Llety i Deuluoedd Milwyr.

Roedd sylwadau'n cynnwys:

- *'Ar hyn o bryd, mae defnyddio ardaloedd gwyrdd i adeiladu hyd yn oed mwy o dai (hyd at 550) yn ymddangos yn hollol ddiangen ac yn niweidiol i'r amgylchedd'*
- *'Byddai 550 o dai newydd yn rhoi pwysau anhygoel ar y system addysg'*
- *'Dwi ddim chwaith yn gallu gweld pam eich bod eisiau adeiladu ar dir cefn gwlad pan fo digon o safleoedd tir llwyd ar gael ym Mharc Diwydiannol Llandow'*
- *'Mae'n ymddangos o'ch cynlluniau y bydd rhan o'n cwrs yn cael ei ddefnyddio i adeiladu tai! Allai ddim credu eich bod yn bod mor gibddall. Mae'r cwrs golff yn adnodd chwaraeon bendigedig....'*
- *Pam mae Metrix yn bygwth yr adnodd chwaraeon lleol hwn pan mae'n rhaid bod yna leoliadau eraill y gellid adeiladu llety teulu arnynt heb y fath effaith?'*
- *'Mae adnodd chwaraeon gwych mewn bodolaeth yn barod ar gyfer gweithwyr Metrix – Cwrs Golff Sain Tathan. Pam ydych chi'n cynnig cymryd peth o'r tir a chau'r adnodd hwn?'*

3.2.g Sylwadau Eraill

(Gwnaed cyfanswm o 25 o sylwadau)

Doedd dim gwir batrwm i'r sylwadau eraill a gofnodwyd dan 'sylwadau cyffredinol'. Roeddent yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau yn cynnwys adnoddau cymunedol (tri sylw), y mathau o awyrennau a fyddai'n cael eu defnyddio ar y safle (dau sylw), beth fyddai'n digwydd yn y Maes Hyfforddi (dau sylw) ac amheuon ynglŷn â'r buddiannau y byddai'r datblygiad yn ei olygu i'r economi (dau sylw).

Roedd sylwadau'n cynnwys:

- *'Byddai adnoddau chwaraeon, hamdden a manwerthu posib yn sicr o fudd i'r ardal. Byddai'n briodol i annog personél milwrol a sifiliaid i ddefnyddio'r adnoddau hyn gyda'i gilydd er mwyn hyrwyddo'r berthynas'*
- *'Dylai mynediad i'r adnoddau chwaraeon fod 'y tu hwnt i'r weiren' fel y gall pobl leol ddefnyddio'r adnoddau a chymysgu gyda phersonél milwrol'*
- *'Ynglŷn â'r maes hyfforddi, does dim llwybr mynediad i'r ardal hon wedi ei gofnodi ar y map, sut fydd hyfforddeion yn mynd a dod o'r ardal hon……..pa fath o hyfforddiant a maes hyfforddiant? Ydi hyn yn cynnwys hyfforddeion yn saethu bwledi go iawn neu fwledi blanc?'*
- *'Mae'r Parc Busnes Awyrofod yn cael ei grybwyll. Pa awyrennau sy'n debygol o ddod yma? Yn hanesyddol, ni ddangoswyd diddordeb mewn dod ag awyrennau yma. Mae'r MOD wedi dangos ei ddiffyg ymrwymiad i Sain Tathan trwy dynnu'r platfform jet cyflym oddi yma.'*
- *'Chwistrelliad o filiynau o bunnau i'r economi leol? Gan lond llaw o fyfyrwyr? Dwi ddim yn credu'*

3.2.h Casgliad

Roedd yr adran Sylwadau Cyffredinol ar y ffurflen adborth yn rhoi cyfle i ymatebwyr wneud sylwadau heb anogaeth a dim ond pump o ymatebwyr ddewisodd beidio â gwneud sylwadau yn yr adran hon.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad a gyflawnwyd, gellir dod i'r casgliadau canlynol:

- Gan fod adborth yn yr adran hon yn wirfoddol, deliwyd gydag amrywiaeth eang o bynciau gan ddarparu adborth gwerthfawr i dîm Sain Tathan.
- Doedd neb yn gwrthwynebu'n gyfan gwbl yr egwyddor o ailddatblygu Sain Tathan. Pan godwyd materion a phryderon, roeddent yn dueddol o fod ynglŷn ag agwedd benodol o'r ailddatblygiad, fel trafnidiaeth neu dai, yn hytrach na sylwadau eang ynglŷn â'r prosiect yn ei gyfanrwydd.

- Er bod sylwadau cadarnhaol wedi eu gwneud ynglŷn â'r wybodaeth oedd ar gael yn ystod Cam Un o'r ymgynghoriad, derbyniwyd yr un faint o sylwadau negyddol. Roedd nifer o'r rhain yn ymwneud a diffyg manylder, yn arbennig ar y cynllun drafft. Erbyn arddangosfeydd Cam Dau, fe ddylai fod yn bosib darparu cynllun drafft mwy manwl a fydd, gobeithio, yn mynd i'r afael a'r canfyddiadau negyddol hyn.
- Trafnidiaeth oedd pwnc mwyaf cyffredin y sylwadau a wnaed yn yr adran hon (24 o sylwadau) gyda nifer yn canolbwyntio ar effaith posib cynnydd traffig ar yr ardal leol.
- Gwnaed nifer fawr o sylwadau hefyd ynglŷn â'r amgylchedd, gyda'r mwyafrif ohonynt yn cyfeirio at sŵn. Roedd blychau pwrpasol ar gyfer 'yr amgylchedd' a 'trafnidiaeth' ar y ffurflen adborth. Felly dylid darllen sylwadau a wnaed yn yr adran Sylwadau Cyffredinol ochr yn ochr â'r rhai a wnaed yn yr adrannau pwrpasol hyn.

3.3 Pynciau Penodol

Yn dilyn yr adran wirfoddol 'Sylwadau Cyffredinol' ar y ffurflen adborth, gwahoddwyd preswylwyr i wneud sylwadau ar bedwar maes penodol: Trafnidiaeth, Cyflogaeth, Yr Amgylchedd a Thai. Yn seiliedig ar ymgynghoriad blaenorol, dyma'r pynciau a ddaeth i'r amlwg fel y rhai oedd o ddiddordeb allweddol i'r gymuned leol. Felly, roedd tîm Sain Tathan yn frwd iawn i glywed sylwadau ynglŷn â'r meysydd penodol hyn.

3.3.a Trafnidiaeth

(cyfanswm o 94 o sylwadau)

Yn y blwch hwn, roedd y cyhoedd yn cael eu hannog i wneud sylwadau penodol ar faterion yn ymwneud a thrafnidiaeth. Cofnodwyd y canlyniadau hyn:

- **Cofnodwyd 37 sylw unigol ynglŷn â Mynediad/Llwybrau.** Cwblhawyd pum ffurflen ar ran cyplau ac felly cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd oedd 42.

- **Cofnodwyd 25 sylw unigol ynglŷn â Thrafnidiaeth Gyhoeddus.** Cwblhawyd dwy ffurflen ar ran cyplau ac felly cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd oedd 27.

- **Cwblhawyd 32 sylw unigol ynglŷn â Sylwadau Eraill.** Cwblhawyd tair ffurflen ar ran cyplau ac felly cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd oedd 35. Mae'r rhain yn cynnwys:

    - *Pum sylw unigol ynglŷn a ffigyrau ar niferoedd traffig rhagweledig*
    - *Pum sylw unigol ynglŷn ag amseriad y gwelliannau trafnidiaeth/seilwaith*
    - *Pedwar sylw unigol ynglŷn â thraffig adeiladu*

Mynediad/Llwybrau

(Cyfanswm o 37 o sylwadau)

Roedd y pwnc mwyaf cyffredin ynglŷn â materion yn ymwneud a llwybrau a mynediad - pa un ai'n teithio i/allan o'r safle ei hun neu i/allan o'r gymuned amgylchynol.

Gan mwyaf, roedd sylwadau'n datgan pryder ynglŷn ag effaith y cynnydd mewn traffig y byddai ailddatblygiad Sain Tathan yn ei achosi ac yna'n mynd ymlaen i dynnu sylw at ffyrdd, cyffyrdd, strydoedd a/neu bentrefi penodol yr oeddent yn teimlo y dylid tynnu sylw arbennig atynt.

Codwyd yr angen i sicrhau cyswllt effeithiol rhwng y datblygiad a'r M4 gan 10 unigolyn. Gwnaed wyth sylw ynglŷn â Ffordd Eglwys Brewis, pedwar ohonynt yn pryderu am adeiladu'r gyffordd newydd tra bod sylwadau eraill yn cynnwys yr angen i sicrhau bod y ffordd bresennol yn cael ei gwneud yn fwy diogel a phryderon ynglŷn â chynnydd traffig ar hyd y ffordd. Gwnaed pum sylw ynglŷn â'r angen i wella'r ffordd o Sain Tathan i'r Bontfaen.

Dyma rai o'r sylwadau:

- *'Rhaid rhoi mwy o ystyriaeth i gysylltiadau ffordd rhwng y safle a thraffordd yr M4'*
- *'Mae'n rhaid cael cyswllt uniongyrchol gyda chyffordd yr M4 os yw prosiect Metrix yn mynd i weithio'*
- *'Mae mynediad o'r M4 yn llawer mwy hanfodol na chreu mynediad arall i'r gwersyll'*
- *'Mae'n amlwg y bydd angen gwelliannau mawr, yn enwedig i'r rhwydwaith ffyrdd, nid yn unig yn yr ardal gyfagos ond hefyd i ddarparu mynediad digonol o'r M4 a'r A48'*
- *'Does dim angen distrywio'r wlad i'r dwyrain o Lanmaes pan allwch chi wella'r ffordd bresennol i Eglwys Brewis'*
- *'Dydw i ddim yn hoffi'r ffordd newydd. Pam fod yn rhaid torri ar draws y wlad? Pam na wnewch chi ddefnyddio'r ffordd sy'n bodoli eisoes a'i gwella hi?'*
- *'Mae Ffordd Y Bontfaen rhwng Y Bontfaen a Sain Tathan yn ddigonol. Mae angen gwella'r ffordd neu roi gwaharddiadau traffig arni'*

Trafnidiaeth Gyhoeddus

(cyfanswm o 25 o sylwadau)

Sylwadau ynglŷn â thrafnidiaeth gyhoeddus oedd yr ail mwyaf cyffredin. Roedd dros hanner y sylwadau a gofnodwyd yn galw am adfer gorsaf drenau Sain Tathan. Roedd y sylwadau eraill yn amlygu angen cyffredinol i wella trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal neu'n cyfeirio'n benodol at yr angen i wella'r gwasanaeth bws.

Dyma rai o'r sylwadau:

- *'Ail agor gorsaf drenau Sain Tathan ac efallai creu gorsaf arall yn agosach at y gwersyll'*
- *'Dylid lleoli gorsaf drenau newydd yn Sain Tathan'*
- *'Bydd gwasanaeth trenau gyda threnau'n rhedeg yn fwy rheolaidd a gorsaf drenau yn Sain Tathan yn hanfodol'*
- *'Mae'r system trafnidiaeth gyhoeddus sy'n bodoli eisoes yn hurt o annibynadwy a dylid ei wella e.e. amlder, amserlenni, mwy o lwybrau a bysus glanach'*
- *'Mae angen gwella'r gwasanaeth bws, trafnidiaeth arall yn dda'*
- *'Rhaid annog personél milwrol a sifiliaid sy'n mynychu'r safle i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus'*
- '*Rhaid gwella trafnidiaeth gyhoeddus os ydych yn bwriadu i bersonél y safle adael eu trafnidiaeth eu hunain adref*'

Sylwadau eraill

(Cyfanswm o 32 o sylwadau)

Roedd sylwadau eraill yn parhau'r thema o bryderon ynglŷn â'r effaith negyddol posib y gallai'r prosiect ei gael ar y rhwydwaith trafnidiaeth ond yn mynd ymlaen i ganolbwyntio ar amryw o faterion eraill. Roedd y rhain yn cynnwys cwestiynau/sylwadau ynglŷn â niferoedd traffig rhagweledig (5 sylw), yr angen i ystyried amseru/amserlennu'r gwaith gwella (5 sylw) a'r angen i ystyried effaith traffig adeiladu (4 sylw).

Dyma rai o'r sylwadau:

- *'Rwy'n byw yn agos iawn, faint o draffig fydd yn teithio trwy Sain Tathan ac oes/fydd yna unrhyw gyfyngiadau amser o ran pryd fydd traffig yn dechrau/gorffen mewn diwrnod'*
- *'Yn ail, mae'r bysys lleol yn cael trafferth pasio'i gilydd ar rannau o Ffordd Eglwys Brewis. Oes yna arolwg wedi ei wneud i sefydlu faint o draffig sy'n defnyddio'r lonydd hyn ac amcangyfrifon o effaith y datblygiad newydd?'*
- *'Doeddwn i ddim yn gallu cael dim amcangyfrifon ystyrlon o'r traffig ychwanegol o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig, naill ai yn ystod y cyfnod adeiladu neu wedyn'*
- *'Mae'n rhaid ailwampio'r ffyrdd cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau'*
- *'Rhaid cwblhau gwaith seilwaith cyn unrhyw adeiladu ar y safle'*
- *'Rhaid ailwampio'r ffyrdd cyn i unrhyw waith adeiladu ddechrau. Os nad yw hynny'n bosib, rhaid gwahardd unrhyw draffig adeiladu rhag defnyddio lonydd anaddas'*

3.3.b Cyflogaeth

(Gwnaed cyfanswm o 55 o sylwadau)

Yn y blwch hwn anogwyd y cyhoedd i wneud sylwadau'n benodol am faterion yn ymwneud a 'Chyflogaeth'. Cofnodwyd y canlyniadau canlynol:

- **Cofnodwyd 16 sylw unigol oedd yn croesawu'r cyfleodd cyflogaeth y byddai'r datblygiad yn eu creu.** Cwblhawyd un ffurflen sylwadau ar ran cwpl ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 17.

- **Cofnodwyd 12 sylw unigol yn mynegi amheuaeth ynglŷn â buddiannau cyflogaeth a nifer swyddi.** Cwblhawyd un ffurflen sylwadau ar ran cwpl ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 13.

- **Cofnodwyd 12 sylw unigol ynglŷn â chyflogaeth a'r gymuned leol.** Cwblhawyd tair ffurflen sylwadau ar ran cyplau ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 15.

- **Cofnodwyd 15 sylw unigol yn ymwneud a materion eraill.** Cwblhawyd tair ffurflen sylwadau ar ran cyplau ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 18.

  Roedd y rhain yn cynnwys:
  - *Pum sylw ynglŷn â'r mathau o swyddi ar gael*
  - *Tri sylw gan unigolion gyda diddordeb mewn gwaith*

- **Gadawyd 19 blwch yn wag.** Daeth tair ffurflen sylwadau gan gyplau ac felly mae cyfanswm damcaniaethol yr unigolion a benderfynodd beidio â gwneud sylw penodol yn y blwch Cyflogaeth yn 22.

Croesawu Cyfleoedd Cyflogaeth

Ar wahân i'r rhai hynny a wnaeth 'dim sylwadau', roedd yr ymateb mwyaf cyffredin a gofnodwyd yn cydnabod y buddiannau cyflogaeth a fyddai'n dod gyda'r prosiect ac yn croesawu'r rhain o fewn y gymuned leol.

Roedd sylwadau'n cynnwys:

- *'Da iawn, popeth yn dda iawn, cyfleoedd gwych'*
- *'Mae'r rhagolygon yn addawol i'r gymuned leol'*
- *'Y mwyaf o gyflogaeth leol, gorau'n byd'*
- *'Rwy'n edrych ymlaen at well adnoddau cyflogaeth i bobl leol a chyflwyno prentisiaethau i bobl leol'*
- *'Da i'r holl ardal leol'*
- *'Mae angen mawr am unrhyw gyflogaeth yn yr ardal – does dim gwaith i bobl ifanc'*

Amheuon ynglŷn â Buddiannau Cyflogaeth a Nifer Swyddi

Roedd yr ail sylw mwyaf poblogaidd yn ymwneud ag amheuaeth gyffredinol am y buddiannau cyflogaeth fyddai'n dod yn sgil y prosiect a/neu'r nifer o swyddi fyddai'n cael eu creu.

Roedd sylwadau'n cynnwys:

- *'Allai ddim gweld budd cyflogaeth cadarnhaol i'r ardal ar wahân i ambell i swydd gwasanaethu am gyflog isel'*
- *'Pa swyddi'n union fydd ar gael? Achos mae hyn i gyd braidd yn annelwig a does neb yn eich credu chi!'*
- *'Wrth i amser fynd heibio mae'n ymddangos bod llai o son am y nifer a'r math o swyddi fydd yn cael eu cynhyrchu i'r gymuned sifilaidd gan y prosiect hwn'*
- *'Dwi ddim yn credu bydd yna lawer o gyflogaeth leol ar wahân i waith adeiladu'*
- *'Dwi ddim yn gweld llawer o swyddi lleol yn cael eu creu gan y coleg arfaethedig hwn. Pan adeiladwyd yr awyrendy fe ddefnyddiodd y cwmni eu gweithwyr eu hunain. Bydd yr holl staff yn dod o safleoedd eraill yn y DU'*

Cyflogaeth a'r Gymuned Leol

Roedd 12 o'r sylwadau unigol a gofnodwyd yn canolbwyntio ar gyflogaeth o safbwynt y gymuned leol. Roedd y mwyafrif o sylwadau'n pwysleisio'r angen i sicrhau bod pobl leol yn cael budd o gyfleoedd cyflogaeth ac nad oedd y cyfleoedd 'gwell' yn mynd i bobl o'r tu allan i'r rhanbarth.

Roedd sylwadau'n cynnwys:

- *'Talwch gyflog teg a dim cynnig y swyddi isaf yn unig i'r bobl leol'*
- *'Da iawn os fydd yn creu swyddi i'r gymuned leol'*
- *'Mae angen swyddi lleol i bobl leol'*
- *'Dylid gwneud ymdrech i lenwi swyddi gwag gyda llafur lleol'*
- *'Mae'r cynigion yn swnio'n ddiddorol. Gobeithio y bydd o fudd i bobl leol ac yn dod a swyddi da i'r ardal.'*

Sylwadau Eraill

O'r 15 'sylwadau eraill', yr unig gwestiynau cyson oedd rhai yn gofyn am fwy o wybodaeth am y mathau o swyddi fyddai ar gael (pump o sylwadau). Daeth sylwadau eraill gan unigolion yn chwilio am gyfleoedd cyflogaeth (tri sylw), yr angen i ysgolion lleol ystyried y cyfleoedd cyflogaeth yn eu maes llafur (un sylw) a'r dalgylch ar gyfer cyflogaeth (un sylw).

Roedd sylwadau'n cynnwys:

- *'Gobeithio y bydd/bod yna botensial am gynyddu cyflogaeth leol ond pa fath? Ai gwaith 'gwasanaethu' yn unig fydd yna?*
- *'Pa fath o swyddi?'*
- '*Hefyd, pa fath o swyddi?*'
- *'Rhaid i'r ysgolion wella eu haddysg wyddonol fel y gall eu disgyblion wynebu'r her mewn cyflogaeth sydd o'u blaenau'*
- *'Byddai gen i ddiddordeb gwybod beth yw'r dalgylch arfaethedig ar gyfer cyflogaeth sydd wedi ei ystyried yn y cynigion'*

3.3.c Yr Amgylchedd

(Gwnaed cyfanswm o 59 o sylwadau)

Yn y blwch hwn anogwyd y cyhoedd i wneud sylwadau'n benodol am faterion yn ymwneud a'r 'Amgylchedd'. Cofnodwyd y canlyniadau canlynol:

- **Cofnodwyd 14 o sylwadau ynglŷn â bioamrywiaeth, bywyd gwyllt a thirwedd.** Cwblhawyd tair ffurflen sylwadau ar ran cyplau ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 17.

- **Cofnodwyd 12 o sylwadau ynglŷn â llygredd.** Cwblhawyd tair ffurflen sylwadau ar ran cyplau ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 15.

- **Cofnodwyd 33 o sylwadau ynglŷn â sylwadau eraill.** Cwblhawyd pedair ffurflen sylwadau ar ran cyplau ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 37.

  Roedd y rhain yn cynnwys:

    - *Chwe ffurflen sylwadau'n nodi ei bod yn edrych fel petai'r amgylchedd wedi cael ystyriaeth o fewn y cynlluniau presennol*
    - *Pum sylw ynglŷn â thraffig*
    - *Pum sylw ynglŷn â llifogydd*
    -

- **Gadawyd 33 blwch yn wag.** Daeth dwy ffurflen sylwadau gan gyplau ac felly mae cyfanswm damcaniaethol yr unigolion a benderfynodd beidio â gwneud sylw penodol yn y blwch Amgylchedd yn 35.

Bioamrywiaeth, Bywyd Gwyllt a Thirwedd

Cofnodwyd 14 o sylwadau ynglŷn â bioamrywiaeth, bywyd gwyllt a'r tirwedd. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar y niwed posib y gallai'r datblygiad arfaethedig ei achosi mewn perthynas â'r ystyriaethau hyn.

Roedd sylwadau'n cynnwys:

- *'Byddai lefel yr adeiladu yn golygu colled ddifrifol mewn safleoedd maes glas a bywyd gwyllt'*
- *'Dinistrio caeau bendigedig!'*
- *'Mae bioamrywiaeth gyfoethog wedi datblygu ar y safle'n cefnogi rhywogaeth a blaenoriaeth y Cynulliad Cenedlaethol (Eos, Llinos Benfelen ayb) a chynefinoedd (glaswelltir heb ei wella). Dylai datblygiad fod ystyriol o fywyd gwyllt sy'n helpu i gyfoethogi'r tir o gwmpas i'r rhai sydd wedi eu lleoli neu'n gweithio ar y safle'*
- *'Bydd yn sbwylio'r ardal leol os aiff yn ei flaen ar safleoedd maes glas, mae digon o le eisoes yn y gwersyll'*
- *'Mae hyn yn bryder. Gwnaed addewidion ynglŷn â chadw'r amgylchedd a chadwraeth mewn prosiectau eraill yn Lloegr, a thorrwyd yr addewidion hynny'*

Llygredd

Gwnaed sylwadau ynglŷn â llygredd gan 12 unigolyn. Llygredd sŵn oedd y pryder mwyaf (chwe sylw), yna golau, traffig a llygredd yn gyffredinol (pob un gyda chyfanswm o ddau sylw).

- *'Mwy o sŵn, mwy o lygredd'*
- *'O ran yr amgylchedd, rydym yn pryderu am y llygredd sŵn a golau (nos) sy'n debygol o gael ei gynhyrchu trwy ddatblygiad y Coleg ac yn arbennig felly datblygiad arfaethedig y Parc Awyrofod'*
- *'Gobeithio na chaiff hyn ormod o effaith ond faint o sŵn ychwanegol fydd y Parc Awyrofod yn ei greu?'*
- *'Fydd y prosiect hwn yn ychwanegu llygredd sŵn i'r ardal? Rwy'n teimlo ei bod yn drueni adeiladu prosiect o'r maint hwn mewn un ardal'*
- *'Bydd symud y maes saethu'n agosach at Lanmaes yn cynyddu llygredd sŵn yn sylweddol yn y pentref'*

Sylwadau Eraill

Cofnodwyd cyfanswm o 33 o sylwadau ar bynciau eraill. Ymysg y rhai cyson sy'n werth eu nodi roedd sylwadau ynglŷn â llifogydd (pum sylw) a thraffig (pum sylw). Roedd sylwadau ynglŷn â thraffig yn dueddol o gyfeirio at y cynnydd mewn traffig yn hytrach nag unrhyw gyfeiriad penodol at lygredd. Cofnodwyd chwe sylw hefyd gan unigolion oedd yn teimlo bod yr amgylchedd eisoes yn cael ei ystyried yn foddhaol fel rhan o'r cynllun presennol.

Roedd sylwadau'n cynnwys:

- *'Diogelwch rhag llifogydd, gan fod ffos yn rhedeg trwy'r safle'*
- *'Cafwyd llifogydd yn Nhrebefered bum gwaith rhwng 1998 a 2002. Nid yw cwlfer y briffordd yn ffit i bwrpas - mae'n rhy fach. Mae'n hanfodol bod unrhyw ddŵr sy'n rhedeg oddi ar adeiladau newydd sy'n cael eu hadeiladu fel rhan o'r Coleg Technegol yn cael ei gyfeirio oddi wrth yr ardal hon.*
- *'Mwy o draffig, mwy o niwsans i drigolion lleol gan waith ar y safle 24 awr y dydd siŵr o fod'*
- *'Mae'r ffyrdd yn brysur nawr'*
- *'Mae'r cynlluniau'n edrych yn dda a gan fod yr Awyrlu wedi bod yma am flynyddoedd, ni ddylai'r effaith ar yr amgylchedd newid rhyw lawer'*
- *'Unwaith fydd y cyfnod adeiladu wedi dod i ben dwi ddim yn credu y bydd yr ardal wedi ei niweidio'n ddifrifol'*

3.3.d Tai

(Cyfanswm o 62 o sylwadau)

Yn y blwch hwn anogwyd y cyhoedd i wneud sylwadau'n benodol am faterion yn ymwneud a 'Thai'. Cofnodwyd y canlyniadau canlynol:

- **Cofnodwyd 17 o sylwadau ynglŷn â'r safle posib ar gyfer tai newydd.** Cwblhawyd dwy ffurflen sylwadau ar ran cyplau ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 19.

- **Cofnodwyd 10 o sylwadau ynglŷn ag effaith tai newydd ar y gymuned leol a seilwaith cysylltiol (yn cynnwys traffig).**

- **Cofnodwyd 35 o sylwadau ynglŷn â sylwadau eraill.** Cwblhawyd saith ffurflen sylwadau ar ran cyplau ac felly mae cyfanswm damcaniaethol y farn a gynrychiolwyd yn 42.

  Roedd y rhain yn cynnwys:
  - *Pum sylw o blaid datblygu tai ychwanegol yn yr ardal*
  - *Pum sylw ynglŷn â rhaniad posib rhwng poblogaeth filwrol a phoblogaeth sifiliaid lleol*
  - *Tri sylw ynglŷn â chyflwyno Gorchmynion Prynu Gorfodol*

  Gadawyd 32 blwch yn wag. Daeth tair ffurflen sylwadau gan gyplau ac felly mae cyfanswm damcaniaethol yr unigolion a benderfynodd beidio â gwneud sylw penodol yn y blwch Tai yn 35.

Safleoedd Posib ar gyfer Tai Newydd

Cofnodwyd 17 o sylwadau ynglŷn â safleoedd posib ar gyfer tai newydd. Roedd y mwyafrif o'r sylwadau hyn yn mynegi pryder ynglŷn â lleoliadau penodol sydd wedi eu hamlygu ar hyn o bryd fel safleoedd posib, yn cynnwys Cwrs Golff Sain Tathan. Roedd sylwadau eraill yn datgan pryder am ddatblygiad posib safleoedd maes glas.

Roedd sylwadau'n cynnwys:

- *'Pam ydych chi'n cynnig rhoi llety i deuluoedd milwrol mewn tai newydd ar y cwrs golff? Pa safleoedd eraill sydd gennych chi ar gyfer tai newydd ar wahân i Glwb Golff Sain Tathan?'*
- *'Mae'n ymddangos byd yna ddigon o dir ar gael i adeiladu tai arno - ar wahân i'r cwrs golff!'*
- *'Mae defnyddio tir 'glas' i adeiladu ystâd anferth o dai fwy neu lai'n distrywio'r ychydig o dir sydd ar ôl yn ein cymuned'*
- *'Mae tir mewnlenwi ar gyfer defnydd preswyl ar gael yn barod yn Llanilltud Fawr a Sain Tathan'*
- *'Dylid darparu ar gyfer unrhyw angen pellach mor agos at y safle a phosib er mwyn lleihau traffig'*

Effaith ar Seilwaith

Cofnodwyd 10 o sylwadau ynglŷn â'r effaith y gallai tai newydd ei gael ar y gymuned leol a'r seilwaith cysylltiol (yn cynnwys traffig). Roedd pedwar o'r rhain yn mynegi pryder ynglŷn â lefelau cynyddol traffig fyddai'n gysylltiedig gyda thai newydd a'r effaith y gallai hyn gael ar ffyrdd lleol. Roedd y sylwadau eraill yn canolbwyntio ar yr effaith y byddai tai newydd yn ei gael ar seilweithiau eraill ac adnoddau cymunedol lleol.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *'Mae mwy o dai'n golygu mwy o straen ar y ffyrdd ac adnoddau sy'n bodoli eisoes'*
- *'Bydd datblygiadau arfaethedig yn llethu'r adnoddau sy'n bodoli eisoes. Mae angen buddsoddiad sylweddol'*
- *'Un pryder o gael 550 o dai ychwanegol o fewn yr ardal yw cyfyngiadau seilwaith h.y. carthffosiaeth, draenio'r systemau presennol'*
- *'Gyda'r tai ychwanegol arfaethedig, fydd yna adnoddau cefnogi ychwanegol h.y. ysgolion, meddygon, deintyddion ayb'*

- *‘Bydd lefel y tai yn y Gwersyll Dwyreiniol yn cynyddu traffig trwy bentref Sain Tathan yn sylweddol’*

Sylwadau Eraill

Cofnodwyd 35 o sylwadau ar bynciau eraill. Er bod y sylwadau hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o bynciau, gellir gweld cysondeb ynddynt. Er enghraifft, gwnaed sylwadau ynglŷn â’r posibilrwydd y gall lleoliad tai greu rhaniad rhwng poblogaethau milwrol a sifilaidd (pum sylw) a chyflwyno Gorchmynion Prynu Gorfodol (tri sylw). Gwnaed pum sylw gan unigolion oedd yn gefnogol i ddatblygiad tai newydd yn yr ardal.

Roedd sylwadau’n cynnwys:

- *‘Mae angen mwy o dai arnom – i’w prynu a’u rhentu – i bobl ifanc yn y dyfodol’*
- *‘Bydd yn troi’r ardal yn glofan milwrol ar draul teuluoedd eraill, yn arbennig plant’*
- *‘Fydd yna orchmynion prynu gorfodol?’*
- *‘Dylai tai newydd gael eu cynllunio i fod yn garbon niwtral’*
- *‘Roedd gennych chi ddigon o dai nes i chi eu gwerthu nhw!’*

3.3.e Casgliad

Rhoddodd y pedwar pwnc penodol gyfle i ymatebwyr wneud sylwadau manwl ar feysydd penodol. Mae'n amlwg oddi wrth y ffurflenni adborth a dderbyniwyd bod y bobl hynny a wnaeth sylwadau wedi meddwl ac ystyried am eu hymatebion, a oedd yn adeiladol ar y cyfan.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad a gyflawnwyd, gellir dod i'r casgliadau canlynol:

- Roedd nifer o sylwadau'n codi o rwystredigaeth bod peth gwybodaeth ddim ar gael, fel y ffigyrau cyflogaeth manwl neu union leoliad y tai i'w hadeiladu. Fe ddylai fod yn bosib egluro'r meysydd hyn yn well yn ystod y camau hwyrach yn y broses ymgynghorol wrth i'r cynlluniau datblygu gael eu cwblhau.

- Fel y gellid disgwyl gyda phrosiect ailddatblygu o'r maint hwn, trafnidiaeth oedd y prif bwnc pryder a chodwyd amrywiaeth o faterion a sylwadau. Roedd y rhain yn canolbwyntio gan mwyaf ar yr effaith gallai cynnydd mewn traffig ei gael ar y rhwydwaith ffyrdd lleol a'r llwybrau mynediad posib i'r safle. Fel cydnabyddiaeth o'r lefel o bryder ynglŷn â thrafnidiaeth, bydd gweithdy pwrpasol yn cael ei gynnal i drafod y pwnc yn fwy manwl (gweler isod).

- Er gwaetha'r ffaith bod nifer o bobl yn cydnabod y cyfleoedd cyflogaeth fydd yn dod i'r ardal leol yn sgil yr ailddatblygu, mynegodd rhai ymatebwyr amheuaeth ynglŷn â'r nifer o swyddi a fyddai'n cael eu creu'n lleol. Mae buddiannau masnachol yn cael eu trosglwyddo i'r ardal leol ac mae'n bwysig bod hyn yn cael ei arddangos yn ystod camau nesaf yr ymgynghoriad.

- Mae lleoliad yr ailddatblygiad arfaethedig yn ardal wledig yn bennaf ac mae wedi arwain at nifer o sylwadau yn pryderu am yr effaith negyddol posib y gallai ei gael ar yr amgylchedd a'r seilwaith lleol. Bydd yn bwysig dangos sut mae'r tîm prosiect yn ystyried y materion hyn ac mae'n bwysig ei fod yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lleihau.

- Codwyd nifer o bryderon gan ymatebwyr ynglŷn â lleoliad/au posib ar gyfer tai - yn arbennig Clwb Golff Sain Tathan. Nid yw'r lleoliadau hyn wedi eu cwblhau ar hyn o bryd, ond fe fydd yn bwysig hysbysu'r safleoedd sy'n cael eu dewis cyn gynted â phosib fel y gellir ymateb i gwestiynau a phryderon penodol.

- Yn ogystal â dadansoddi'r sylwadau sy'n cael eu gwneud, mae'n bwysig cydnabod bod nifer o ymatebwyr wedi dewis peidio â gwneud sylwadau ar rai o'r adrannau ynglŷn â thrafnidiaeth, cyflogaeth, yr amgylchedd a thai. Er enghraifft, dewisodd 19 o bobl beidio â gwneud sylw penodol ar gyflogaeth, dewisodd 33 i beidio â gwneud sylw ar yr amgylchedd a dewisodd 32 i beidio â gwneud sylw ar dai.

4.0 DADANSODDIAD DATA MEINTIOL

Yn dilyn arddangosfeydd cyhoeddus Cam Un, anfonwyd nodyn atgoffa at bawb a fynychodd, ac a roddodd eu manylion cyswllt, yn eu hatgoffa i gwblhau a dychwelyd ffurflenni adborth. Ynghyd a'r nodyn atgoffa anfonwyd ffurflen adborth ddiwygiedig gyda phedwar cwestiwn ateb-caeedig fel y nodir yn adran 1.0. Dychwelodd 35 o bobl y ffurflen adborth ddiwygiedig.

Mae'r canlynol yn ddadansoddiad meintiol o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiynau ychwanegol.

Cwestiwn 1: Ar y cyfan, ydych chi'n credu bod datblygiad y Coleg Technegol Amddiffyn yn cynrychioli cyfle cadarnhaol i'r gymuned/rhanbarth lleol?

Ydw	22	Na	6
Heb ateb	3		

Dewisodd pedwar o'r ymatebwyr roi ateb arall:

Yn lleol, na – yn rhanbarthol, ydw	2	O bosib	1
Methu ateb yn effeithiol	1		



Cwestiwn 2: Ar y cyfan, ydych chi'n credu bod datblygiad y Parc Busnes Awyrofod yn cynrychioli cyfle cadarnhaol i'r gymuned/rhanbarth lleol?

Ydw	24	Na	4
Heb ateb	2		

Dewisodd pump i roi ateb arall:

Dim yn gwybod digon amdano	1	Yn lleol, na – Yn rhanbarthol, ydw	1
Dim ond os oes gwaith gwasanaethu sifil A/V yn dod i'r ardal	1	Ydw, gydag amheuon	1
Mae'r disgrifiad yn achosi pryder i mi	1		



Cwestiwn 3: Ydych chi o blaid y cynigion i gadw Ffordd Eglwys Brewis ar agor a'i gwella mewn mannau?

Ydw	27	Na	2
Heb ateb	1		

Dewisodd pump i roi ateb arall:

Dim barn gref	1	Dim yn siŵr	1
Methu gwneud sylw, dim gwybodaeth leol	1	Dim yn gwybod	1
Dim yn deall y sylw	1		



Cwestiwn 4: Yn defnyddio graddfa o 1 – 6, wnewch chi raddio'r pynciau canlynol mewn perthynas ag ailddatblygiad MOD Sain Tathan, 1 sydd yn fwyaf pwysig i chi:

Trafnidiaeth	**Mynediad**	**Tai**
Cyflogaeth	**Yr amgylchedd**	**Arall (nodwch os gwelwch yn dda)**

Mae ymatebwyr wedi dehongli'r cwestiwn hwn mewn un o ddwy ffordd. Mae rhai wedi defnyddio'r raddfa'n gymharol, fel y bwriadwyd, gan raddio'r pynciau yn ôl pwysigrwydd. Fodd bynnag, mae rhai wedi trin pob pwnc ar wahân, gan raddio bob un ar raddfa o un i chwech. Felly mae'r ymatebion wedi eu dadansoddi mewn dau grŵp.

Grŵp Un - materion wedi eu graddio'n gymharol

Mae'r tabl canlynol yn dangos sut wnaeth yr 11 ymatebwr a ddefnyddiodd ddull graddio cymharol raddio pob pwnc:

	1 (mwyaf pwysig)	**2**	**3**	**4**	**5**	**6 (lleiaf pwysig)**
Trafnidiaeth	2	1	5	4	0	0
Mynediad	2	3	3	2	1	0
Tai	0	2	2	3	4	0
Cyflogaeth	3	2	0	0	5	1
Amgylchedd	2	3	1	3	1	1

Mae'r graff canlynol yn dangos sawl gwaith y graddiwyd pob pwnc gyda phob sgôr:



1 (mwyaf pwysig) 6 (lleiaf pwysig)

Grŵp 2 - pynciau wedi eu graddio'n unigol

Mae'r graff canlynol yn dangos y sgôr a roddodd yr ymatebwyr a raddiodd pob pwnc yn unigol i bob pwnc:

	1 (mwyaf pwysig)	2	3	4	5	6 (lleiaf pwysig)
Trafnidiaeth	12	5	0	2	0	4
Mynediad	14	3	0	2	0	4
Tai	5	2	3	7	0	6
Cyflogaeth	6	2	6	2	0	7
Yr Amgylchedd	10	4	2	5	0	2

Mae'r graff canlynol yn dangos sawl gwaith y graddiwyd pob pwnc gyda phob sgôr:



1 (mwyaf pwysig) 6 (lleiaf pwysig)

Nododd naw o ymatebwyr faterion 'eraill' oedd o bryder arbennig iddynt, sef:

- cefnogaeth i blant a phobl ifanc lleol
- 'gadael'
- adnoddau chwaraeon
- adnoddau ar gael i breswylwyr lleol
- gwybodaeth
- ansawdd cynllunio
- sŵn
- adeiladu
- Menter Cyllid Preifat

Casgliad

Er ei bod yn bwysig cydnabod bod y dadansoddiad meintiol yn seiliedig ar nifer llai o ymatebion na'r dadansoddiad ansoddol, mae wedi dangos rhai canlyniadau diddorol.

Dywedodd y mwyafrif llethol o ymatebwyr eu bod yn meddwl bod y Coleg Technegol Amddiffyn a'r Parc Busnes Awyrofod yn cynrychioli cyfle cadarnhaol i'r gymuned. Yn ogystal, roedd nifer tebyg o ymatebwyr yn gefnogol i'r cynnig i gadw Ffordd Eglwys Brewis ar agor – gan ddangos eu bod yn croesawu'r newidiadau a wnaed i'r cynllun drafft yn dilyn adborth a dderbyniwyd yn yr arddangosfeydd cyhoeddus cyntaf.

5.0 Y CAMAU NESAF

Mae tîm prosiect Sain Tathan yn ymroddedig i ymgynghori gyda'r gymuned leol yn y cyfnod yn arwain at gyflwyno cais am gynllunio yn 2009. Mae angen cytuno ar lawer o fanylion y datblygiad o hyd, ac mae digon o le i sylwadau a syniadau gan y gymuned i ddylanwadu ar y cynlluniau esblygol.

Mae Cam Un o raglen ymgynghorol Sain Tathan wedi ennyn llawer o ddiddordeb gan y gymuned leol ac mae wedi bod yn gyfle gwerthfawr i'r tîm prosiect dderbyn adborth yn uniongyrchol gan randdeiliaid a phreswylwyr lleol. Bydd yr adborth yn cael ei ystyried yn awr wrth i'r cynlluniau datblygu symud ymlaen.

Gweithdai a grwpiau diddordeb

Cam nesaf y broses ymgynghori yw cyfres o bedwar gweithdy a grwpiau diddordeb, pob un yn canolbwyntio ar faes allweddol o ddiddordeb/pryder i randdeiliaid a phreswylwyr lleol. Bydd sylwadau a wnaed ac adborth a dderbyniwyd yn ystod Cam Un yn addysgu hyn a bydd y digwyddiadau yn gyfle am drafodaeth bellach ar feysydd allweddol o ddiddordeb.

- gorffen -